

GWERS 3

CYMRYD CAMAU GWEITHREDU

Ynglŷn â'r wers hon

Caiff y disgyblion eu cyflwyno'n benodol i'r weithred ymgyrchu y mae Amnest Rhyngwladol yn ei chymryd i gefnogi trigolion Deep Sea. Byddant yn nodi'r mathau mwyaf effeithiol o ymgyrchu a chamau gweithredu priodol.

Amcanion dysgu

Bydd y disgyblion yn gallu:

- nodi'r gweithredoedd ymgyrchu y mae'r corff anllywodraethol Amnesty International UK yn eu cymryd i fynd i'r afael â thlodi yn Deep Sea;
- myfyrio'n feirniadol ar weithred ymgyrchu o'u dewis hwy;
- cymryd camau gweithredu dros drigolion Deep Sea.

Dysgu blaenorol

Mae'r wers hon yn dilyn ymlaen yn syth o Wers 2 Mynd i'r Afael â Thlodi.

Adnoddau sydd eu hangen

Taflen waith 1 *Sut olwg sydd ar gymryd camau gweithredu?* (un ar gyfer pob disgybl)

DVD (clip cyfweiliad grŵp ieuencid Amnest)

PowerPoint – *Tlodi a hawliau dynol* – Gwers 3

Cerdyn lliw, ysgrifbinnau neu bensiliau lliw

Mynediad at gyfleusterau TG

Gwybodaeth gefndir ar y clip ffilm

Mae'r clip hwn yn dangos dau aelod grŵp ieuencid Amnest (Joe ac Emily) yn cyfweilio â Nyamalo, sy'n byw yn Deep Sea. Cafodd ei ffilmio ym mis Ebrill 2009 yng Nghynhadledd Genedlaethol Amnesty International UK. Mae hefyd yn cynnwys ffilm o brotest a ddigwyddodd yna i amlygu trallodion Deep Sea.

Mae'r Fenter Cardiau Cyfarch y soniwyd amdani gan Nyamalo yn fenter gan Amnest Rhyngwladol. Mae aelodau'r cyhoedd yn anfon cerdyn (yn dangos eu cydsafiad) at gymuned neu at unigolyn. Yn gynnar yn 2009 derbyniodd cymuned Deep Sea dros 3,000 o gardiau gan aelodau'r cyhoedd yn dangos eu cefnogaeth. Ar y pryd, cododd y cam gweithredu hwn ymwybyddiaeth a sylw gan y cyfryngau ac arweiniodd at ataliad dros dro o ran y dadfeddiannu gorfodol anghyfreithlon, er bod y bygythiad yna o hyd.

Y geiriau a genir gan Nyamalo yn ystod y clip ffilm yw **Bado mapambano** (Rydym yn ymladd o hyd).

Gwaith dilynol

Gallai'r disgyblion archwilio gwaith gwahanol gyrff anllywodraethol a'u gwaith ar dlodi a materion eraill. Gallent hefyd ddilyn y gwersi hyn gyda'r Prosiect Cymryd Camau Gweithredu, gan nodi mater hawliau dynol sy'n bwysig iddynt hwy a chymryd camau gweithredu i achosi newid.

Dywedwch wrthym beth rydych chi'n ei wneud!

Os bydd eich disgyblion yn penderfynu cymryd camau gweithredu ar ran cymuned Deep Sea, rhowch wybod i ni. Byddem wrth ein boddau'n rhannu eich syniadau a'ch creadigrwydd gydag eraill drwy ein gwefan Diogelu Dynolryw. Ewch i **www.protectthehuman.com** i gael mwy o wybodaeth (nodwch y telerau ac amodau a'r canllawiau ar Ddiogelu Plant ar y safle hwn). Peidiwch ag anghofio rhoi'r tag 'tlodi' ar eich cyflwyniad, fel y gallwn ei olrhain.

Os oes gennych unrhyw adborth cyffredinol ar y pecyn ei hun, ewch i **www.amnesty.org.uk** i wybod sut i osod eich sylwadau.

GWERS 3 CYMRYD CAMAU GWEITHREDU

Cynllun gwers

Amser	Cyflwyniad	Adnoddau
0-10 munud	Dylech ailadrodd gwaith cyrff anllywodraethol: beth maent yn ei wneud? Mewn parau, gofynnwch i'r disgyblion enwi logos y cyrff anllywodraethol sydd ar y sgrin. Trafodwch y mathau o gamau gweithredu y mae pob sefydliad yn eu cymryd i fynd i'r afael â thlodi, e.e. gwaith ymateb i argyfyngau, gwaith datblygu, ymgyrchu neu'r tri ohonynt. Atebion i helpu'r drafodaeth: 1. Achub y Plant – mae eu gwaith yn golygu achub bywydau mewn argyfyngau, ymgyrchu dros hawliau plant a gwella eu dyfodol drwy waith datblygu tymor hir. 2. Amnest Rhyngwladol – sefydliad ymgyrchu dros hawliau dynol. Eu diben yw amddiffyn pobl lle bynnag y gwrthodir cyfiawnder, tegwch, rhyddid a'r gwir. 3. Oxfam – yn gweithio tuag at atal tlodi'n fyd-eang. Mae Oxfam yn gwneud gwaith i leddfu effeithiau argyfyngau, gwaith datblygu hir dymor ac ymgyrchu.	Gwers 3 Sleidiau PowerPoint 1-3
Gweithgareddau		
10-30 munud	Defnyddiwch y wybodaeth ar sleidiau 4-9 i gyflwyno Amnest Rhyngwladol fel enghraifft o gorff anllywodraethol sy'n ymgyrchu. Esboniwch ei fod yn gweithio gyda chymuned Deep Sea (yr astudiaeth achos a archwiliwyd yn y wers flaenorol) i amddiffyn eu hawliau dynol (i gael mwy o wybodaeth ar ymgyrch Amnest Rhyngwladol, ewch i www.amnesty.org.uk). Dangoswch y clip ffilm gan grŵp ieuenctid Amnest Rhyngwladol, lle cyfwelir â Nyamalo, sy'n byw yn Deep Sea. Dosbarthwch <i>Sut olwg sydd ar gymryd camau gweithredu?</i> (taflen waith 1) a gofynnwch i'r disgyblion gwblhau'r cwestiynau ar ôl gwyllo'r ffilm. Fel dosbarth, trafodwch eu hatebion.	DVD (clip cyfweliad grŵp ieuenctid Amnest); <i>Sut olwg sydd ar gymryd camau gweithredu?</i> (taflen waith 1); mynediad at y Rhyngwryd; adnoddau gwneud cardiau
30-55 munud	Esboniwch i'r disgyblion y byddant yn cymryd camau gweithredu ar ran cymuned Deep Sea nawr. Gallant ddewis o'r awgrymiadau canlynol, a amlinellir hefyd yn fanwl ar daflen waith 1. Os yn bosibl, rhwng fynediad at TG i ddisgyblion fel y gallant wybod mwy am y camau gweithredu hyn o www.amnesty.org.uk/povertyaction Cam gweithredol 1 – gwnewch gerdyn cyfarch a'i anfon at gymuned Deep Sea. Peidiwch â chynnwys cyfeiriadau disgyblion neu'r ysgol. Cam gweithredol 2 – anfonwch lythyr/neges e-bost/cerdyn post i lobio llywodraeth Kenya. Cam gweithredol 3 – gwnewch bosteri i godi ymwybyddiaeth gyda'r neges 'nid yw tlodi'n anochel' neu boster ar 'slymiau'// aneddiadau anffurfiol gyda'r neges 'mae hawliau dynol yn byw yma' (cefnogwch gamau gweithredu parhaus yn ystod amser cinio/ar ôl yr ysgol). Gallech gynnal dangosiad ffilm Deep Sea. Cam gweithredu 4 – dywedwch wrth Amnest Rhyngwladol beth arall y dylid ei wneud i fynd i'r afael â thlodi. Gall y disgyblion ymweld â'r wefan a dylent ymdrin â beth, pam, pwy a sut: Beth ddylid ei wneud i fynd i'r afael â thlodi? Pam y dylid ei wneud? Pwy ddylai ei wneud, a sut gellir ei wneud? Dylai'r disgyblion gymryd eu cam gweithredu a myfyrio'n feirniadol ar ei effaith. Cynllunnir Cam gweithredu 4 ar gyfer disgyblion nad ydynt yn dymuno ymgymryd â gweithred ymgyrchu.	PPT slides 10-11
55-60 munud	Cyfarfod llawn y grŵp Dylai'r disgyblion gwblhau'r ddau gwestiwn olaf ar daflen waith 1. Dewiswch dri i bedwar myfyriwr i roi adborth ar yr atebion ar eu taflenni gwaith.	Sleidiau PowerPoint 12-13

GWERS 3 **TAFLEN WAITH 1** **SUT OLWG SYDD AR GYMRYD CAMAU GWEITHREDU?**

Ar ôl gwyllo clip ffilm grŵp ieuenctid Amnest Rhyngwladol, atebwch y canlynol:

1. Beth sydd ei eisiau ar drigolion Deep Sea?

2. Pa gamau gweithredu mae'r gymuned, y bobl ifanc ac Amnest Rhyngwladol wedi'u cymryd?

3. Pa effaith mae ymgyrchu wedi ei chael ar y gymuned hyd yn hyn?

GWERS 3 **PARHAD I DAFLEN WAITH 3** **SUT OLWG SYDD AR GYMRYD CAMAU GWEITHREDU?**

I gael mwy o wybodaeth ar bob un o'r camau gweithredu, a dweud wrth Amnest pa gamau gweithredu yr ydych wedi'u cymryd, ewch i www.amnesty.org.uk/povertyaction

Gwers cymryd camau gweithredu

Dewiswch un o'r camau gweithredu isod

1. Ymgyrch Cardiau Cyfarch – gwnewch gerdyn a'i anfon yn uniongyrchol at gymuned Deep Sea i ddangos eich cefnogaeth a'ch cydsafiad. **Peidiwch â chynnwys eich cyfeiriad gartref na chyfeiriad eich ysgol.**
2. Gallech lobïo llywodraeth Kenya – ysgrifennwch lythyr/anfonwch neges e-bost/cerdyn post i'w perswadio i atal dadfeddiannu gorfodol a gwella'r amgylchiadau byw yng nghymuned Deep Sea.
3. Codwch ymwybyddiaeth yn eich ysgol a'ch cymuned – gallech gynnal dangosiad ffilm Deep Sea neu gyflwyniad, gwneud posteri gyda'r neges 'nid yw tlodi'n anochel'/ 'mae hawliau dynol yn byw yma'.
4. Dywedwch wrth Amnest Rhyngwladol beth arall y gellid ei wneud i fynd i'r afael â thlodi – gallai hyn fod ar ffurf poster.
Anfonwch eich awgrymiadau drwy'r wefan www.amnesty.org.uk/povertyaction
Cofiwch gynnwys: **Beth** ddylid ei wneud i fynd i'r afael â thlodi? **Pam** ddylid ei wneud? **Pwy** ddylai ei wneud, a **sut** gellir ei wneud?

Pa gam gweithredu a ddewiswyd gennych a pham?

Pa fath o newid bydd eich cam gweithredu yn ei achosi?